Ysgol Aberllydan ar flaen y dosbarth



Mae disgyblion yn ffynnu yn Ysgol Aberllydan diolch i ‘brofiad dysgu diogel, dyrchafol a bywiog' yn ôl adroddiad Estyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Dywedodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn dilyn arolwg tua diwedd 2015, bod yr ysgol yn gwneud yn ‘Dda' ar hyn o bryd a'r gobeithion gwella hefyd yn ‘Dda'.

Daw canlyniad cadarnhaol yr arolwg yn fuan ar ôl agoriad swyddogol estyniad ac ailwampio'r ysgol a gyllidwyd dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr hydref diwethaf. Cydweithrediad unigryw gyda Llywodraeth Cymru yw hwn, fydd yn gweld buddsoddi £150 miliwn yn ysgolion uwchradd a chynradd Sir Benfro yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Aberllydan oedd yr ysgol gyntaf yn y Sir i fanteisio ar y cynllun.

Mae dyfarniad ‘Da' gan Estyn yn disgrifio'r ysgol fel un â "llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol."

Canolbwyntiodd yr arolwg ar dri chwestiwn allweddol:

1) Pa mor dda yw'r canlyniadau?

2) Pa mor dda yw darpariaeth?

3) Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Ateb yr ysgol oedd ‘Da' ym mhob un ohonynt.

Darganfu crynodeb o adroddiad Estyn y canlynol:

- Bod safonau ffyniant disgyblion yn uchel
- Bod gan y disgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol
- Bod y cwricwlwm yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol a deniadol
- Bod darpariaeth o safon ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen
- Bod y rhan fwyaf o addysgu'n effeithiol
- Bod ansawdd gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd yn uchel
- Bod yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diogel, dyrchafol a bywiog y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffynnu ynddo

Fodd bynnag, cafodd yr adroddiad nad yw cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n foddhaol gyda'r rhai mewn ysgolion tebyg.

Mae gobeithion gwella'r ysgol yn dda oherwydd y canlynol:

- Bod arweinwyr yr ysgolion yn rhannu gweledigaeth glir ac yn ymroddi i wella cyrhaeddiad disgyblion
- Bod trefnau hunangloriannu'n nodi pethau sydd angen eu gwella'n gywir
- Bod cynllun datblygu'r ysgol yn ddefnyddiol ac yn cynnwys camau gweithredu addas ar gyfer sicrhau gwelliant
- Bod yr ysgol yn elwa ar bartneriaethau agos gyda rhieni a'r gymuned sy'n cyfrannu'n sylweddol at ffyniant disgyblion
- Bod yr ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n ofalus ac yn rhoi gwerth da am yr arian

Meddai Mr Gareth Lewis, Pennaeth Gweithredol yr ysgol:

"Mae'n adroddiad da iawn ac rwyf wrth fy modd bod Estyn wedi cydnabod gymaint o waith sy'n digwydd i wneud Ysgol Aberllydan y fath lwyddiant, sydd i'w briodoli i gyfraniad disgyblion, staff a rhieni. Mae'n gamp fawr i'r ysgol."

Ategwyd ei sylwadau gan y Cynghorydd Sue Perkins, Llefarydd y Cabinet ar Addysg a Diogelu a ychwanegodd:

"Mae disgyblion a staff Aberllydan yn haeddu clod mawr am gael adroddiad Estyn mor gadarnhaol.

"Pryd bynnag y byddaf yn ymweld â'r ysgol mae'n amlwg bod cyfathrebu rhagorol rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac mae hyn yn cael ei ddangos yng nghanfyddiadau'r adroddiad."

Mae adroddiad Estyn ar Ysgol Aberllydan i'w gael yn www.estyn.gov.wales

Geiriad
Pennaeth Gweithredol Ysgol Aberllydan, Mr Gareth Lewis, yn annerch y disgyblion ar adeg dadorchuddio estyniad yr ysgol fis Tachwedd diwethaf.